**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 148 (Cy.18)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Roedd y ddogfen strategaeth *Gwella Iechyd yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fis Chwefror 2001, yn dynodi'r bwriad i ddiddymu'r pum Awdurdod Iechyd sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru ar 1 Ebrill 2003 a chreu Byrddau Iechyd Lleol y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddirprwyo iddynt swyddogaethau Awdurdodau Iechyd a drosglwyddwyd iddo yn unol ag adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (1998 p.38), a swyddogaethau eraill y Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth iechyd.

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Byrddau Iechyd Lleol fel y darperir ar gyfer hynny yn adran 16BA o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (1977 p. 49) ac Atodlen 5B iddi ac mae'n nodi'r ardaloedd y maent wedi'u sefydlu ar eu cyfer. Y bwriad yw y bydd gan Fyrddau Iechyd Lleol yr un ffiniau ag ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer swyddogaethau interim Byrddau Iechyd Lleol rhwng dyddiadau eu sefydlu a'u dyddiadau gweithredol ac yn nodi eu dyddiadau cyfrifyddu.

Mae Awdurdod Iechyd Cymru yn cael eu diddymu drwy Orchymyn sy’n cael ei wneud yn unol ag adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Mewn perthynas ag aelodaeth a chyfansoddiad Byrddau Iechyd Lleol, gweler Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/149, (Cy.19)).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 148 (W.18)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The strategy document *Improving Health in Wales*, published by the National Assembly for Wales in February 2001, signalled the intention to abolish the existing five Health Authorities in Wales on 1st April 2003 and to create Local Health Boards to which the National Assembly may delegate functions of Health Authorities transferred to it pursuant to section 27 of the Government of Wales Act 1998 (1998 c.38), and other functions of the National Assembly relating to the health service.

This Order establishes Local Health Boards as provided for in section 16BA of and Schedule 5B to the National Health Service Act 1977 (1977 c.49) and sets out the areas for which they are established. The intention is that Local Health Board areas should have the same boundaries as local government areas in Wales. The Order also provides for interim functions of Local Health Boards between their establishment and operational dates and sets their accounting date.

Welsh Health Authorities are abolished by Order made pursuant to section 27 of the Government of Wales Act 1988.

In relation to the membership and constitution of Local Health Boards, see the Local Health Boards (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/149, (W.19)).

Mewn perthynas â'r swyddogaethau a ddirprwywyd i Fyrddau Iechyd Lleol, gweler Reoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/150, (Cy.20)).

In relation to the functions delegated to Local Health Boards, see the Local Health Boards (Functions)(Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/150, (W.20)).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 148 (Cy.18)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003

*Wedi'i wneud* *29 Ionawr 2003*

*Yn dod i rym* *10 Chwefror 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16BA, is-adrannau (1), (2) a (3) a 126(4) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**a**), ac Atodlen 5B, paragraffau 1 a 2 i'r Ddeddf honno, sy'n arferadwy ganddo mewn perthynas â Chymru(**b**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol -

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. -(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 a daw i rym ar 10 Chwefror 2003.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "ardal Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board area*") yw'r ardal o Gymru y mae Bwrdd Iechyd Lleol wedi'i sefydlu ar ei chyfer;

ystyr "Deddf 1977" ("*the 1977 Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

mae i "dyddiad gweithredu" ("*operational date*") yr un ystyr ag a briodolwyd iddo ym mharagraff 1(2) o Atodlen 5B i Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;

(a) 1977 p.49, fel y'i diwygiwyd. Y diwygiadau perthnasol at ddiben y Gorchymyn hwn yw'r rhai a wnaed gan adran 6 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (2002 p.17) ac Atodlenni 4 a 5 iddi.

(b) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo of Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672), fel y caiff ei ddarllen gydag adran 40 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 148 (W.18)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003

*Made* *29th January 2003*

*Coming into force* *10th February 2003*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 16BA, subsections (1), (2) and (3) and 126(4) of the National Health Service Act 1977(**a**), and Schedule 5B, paragraphs 1 and 2 to that Act, which are exercisable by it in relation to Wales (**b**), makes the following Order -

**Title, commencement and extent**

**1**. -(1) This Order may be cited as the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 and shall come into force on 10th February 2003.

(2) This Order applies to Wales only.

**Interpretation**

**2**. In this Order -

"the 1977 Act" ("*Deddf 1977*") means the National Health Service Act 1977;

"establishment date" ("*dyddiad sefydlu*") means 10th February 2003;

"Local Health Board area" ("*ardal Bwrdd Iechyd Lleol*") means the area of Wales for which a Local Health Board is established;

"operational date" (dyddiad gweithredu") has the meaning assigned to it in paragraph 1(2) of Schedule 5B of the National Health Service

(a) 1977 c.49, as amended. The relevant amendments for the purpose of this Order are those made by section 6 of and Schedules 4 and 5 to the National Health Service Reform and Healthcare Professions Act 2002 (2002 c.17).

(b) By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), as read with section 40 of the National Health Service Reform and Healthcare Professions Act 2002.

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 10 Chwefror 2003; ac;

ystyr "prif ardal llywodraeth leol" ("*principal local government area*") yw prif ardal llywodraeth leol fel a nodwyd yn Rhannau I a II o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**a**).

**Sefydlu Byrddau Iechyd Lleol**

**3**. Sefydlir drwy hyn, gydag effaith o'r dyddiad sefydlu, y Byrddau Iechyd Lleol a restrwyd yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn a gaiff eu galw yn ôl yr enwau a briodolir iddynt yn yr Atodlen honno.

**Natur Byrddau Iechyd Lleol**

**4**. Sefydlir bob Bwrdd Iechyd Lleol at y dibenion a nodir yn adran 16BA (1) o Ddeddf 1977.

**Ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol**

**5.** -(1) Bydd pob ardal Bwrdd Iechyd Lleol yr un â'r brif ardal llywodraeth leol a bennir iddi yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a bydd iddi'r un ffiniau.

(2) Os caiff y brif ardal llywodareth leol a bennir i Fwrdd Iechyd Lleol o dan baragraff (1) uchod ei hamrywio, caiff ardal y Bwrdd Iechyd Lleol ei amrywio yn unol â hynny.

(3) Nid yw paragraff (2) uchod yn gymwys mewn perthynas â chreu prif ardal llywodraeth leol newydd, diddymu prif ardal llywodraeth leol sydd eisoes yn bodoli neu uno dwy brif ardal llywodraeth leol neu fwy.

**Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfirfyddu Byrddau Iechyd Lleol**

**6.** -(1) Dyddiad gweithredol bob Bwrdd Iechyd Lleol fydd 1 Ebrill 2003.

(2) Dyddiad cyfrifyddu bob Bwrdd Iechyd Lleol fydd 31 Mawrth.

**Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredu**

**7**. Rhwng ei ddyddiad sefydlu a'i ddyddiad gweithredu, bydd gan bob Bwrdd Iechyd Lleol y swyddogaethau canlynol -

(a) ymrwymo i gontractau GIG;

(b) ymrwymo i gontractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

(c) gwneud unrhywbeth arall y mae'n rhesymol angenrheidiol er mwyn ei alluogi i weithredu'n foddhaol a hynny gydag effaith o'i ddyddiad gweithredol.

(a) 1972 p.70. Amnewidiwyd Rhannau I a II o Atodlen 4 gan Ddeddf Lywodraeth Leol (Cymru) 1994 (1994 p.19).

Act 1977 and;

"principal local government area" (*prof ardal llywodraeth leol*") means a principal local government area in Wales as set out in Parts I and II of Schedule 4 to the Local Government Act 1972(**a**).

**Establishment of Local Health Boards**

**3.** There are hereby established, with effect from the establishment date, the Local Health Boards listed in the Schedule to this Order which shall be called the names assigned to them in that Schedule.

**Nature of Local Health Boards**

**4**. Each Local Health Board is established for the purposes set out in section 16BA (1) of the 1977 Act.

**Local Health Board areas**

**5**. -(1) Each Local Health Board area shall be, and shall have the same boundaries as, the principal local government area assigned to it in the Schedule to this Order.

(2) If the principal local government area assigned to a Local Health Board under paragraph (1) above is varied, the Local Health Board area shall be varied accordingly.

(3) Paragraph (2) above does not apply to creation of a new principal local government area, abolition of an existing principal local government area or a merger of two or more principal local government areas.

**Operational date and accounting date of Local Health Boards**

**6**. -(1) The operational date of each Local Health Board shall be 1st April 2003.

(2) The accounting date of each Local Health Board shall be 31st March.

**Limited functions before operational date**

**7**. Between its establishment date and its operational date, each Local Health Board shall have the functions of -

(a) entering into NHS contracts;

(b) entering into other contracts including contracts of employment; and

(c) doing such other things as are reasonably necessary to enable it to begin to operate satisfactorily with effect from its operational date.

(a) 1972 c.70. Parts I and II of Schedule 4 were substituted by the Local Government (Wales) Act 1994 (1994 c.19).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

29 Ionawr 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

29th January 2003

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

## YR ATODLEN

Erthygl 3

Erthygl 5

**Enwau Byrddau Iechyd Lleol a phrif ardaloedd llywodraeth leol y maent yn cael eu sefydlu ar eu cyfer**

| *Enwau Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan erthygl 3* | *Y brif ardal llywodraeth leol y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn cael ei sefydlu ar ei chyfer* |
|---|---|
| 1. Bwrdd Iechyd Lleol Ynys Môn | Ynys Môn |
| 2. Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd | Gwynedd(**a**) |
| 3. Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd | Caerdydd |
| 4. Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion | Ceredigion(**b**) |
| 5. Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin | Sir Gaerfyrddin |
| 6. Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych | Sir Ddinbych |
| 7. Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint | Sir y Fflint |
| 8. Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy | Sir Fynwy |
| 9. Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro | Sir Benfro |
| 10. Bwrdd Iechyd Lleol Powys | Powys |
| 11. Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe | Abertawe |
| 12. Bwrdd Iechyd Lleol Conwy | Conwy(**c**) |
| 13. Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent | Blaenau Gwent |
| 14. Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr | Pen-y-bont ar Ogwr |

(a) Yr enw a ddefnyddir i ddisgrifio'r ardal hon yn Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yw "Caernarfonshire and Merionethshire".

(b) Yr enw a ddefnydir i ddisgrifio'r ardal hon yn Atodlen 4 i Ddeddf Llywodrateh Leol 1972 yw "Cardiganshire".

(c) Yr enw a ddefnyddir i ddisgrifio'r ardal hon yn Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yw "Aberconwy and Colwyn".

## SCHEDULE

Article 3

Article 5

**Local Health Board names and principal local government areas for which they are established**

| *Names of Local Health Boards established under article 3* | *Principal local government area for which the Local Health Board is established* |
|---|---|
| 1. Anglesey Local Health Board | Anglesey |
| 2. Gwynedd Local Health Board | Gwynedd(**a**) |
| 3. Cardiff Local Health Board | Cardiff |
| 4. Ceredigion Local Health Board | Ceredigion(**b**) |
| 5. Carmarthenshire Local Health Board | Carmarthenshire |
| 6. Denbighshire Local Health Board | Denbighshire |
| 7. Flintshire Local Health Board | Flintshire |
| 8. Monmouthshire Local Health Board | Monmouthshire |
| 9. Pembrokeshire Local Health Board | Pembrokeshire |
| 10. Powys Local Health Board | Powys |
| 11. Swansea Local Health Board | Swansea |
| 12. Conwy Local Health Board | Conwy(**c**) |
| 13. Blaenau Gwent Local Health Board | Blaenau Gwent |
| 14. Bridgend Local Health Board | Bridgend |

(a) The name by which this area is described in Schedule 4 to the Local Government Act 1972 is "Caernarfonshire and Merionethshire".

(b) The name by which this area is described in Schedule 4 to the Local Government Act 1972 is "Cardiganshire".

(c) The name by which this area is described in Schedule 4 to the Local Government Act 1972 is "Aberconwy and Colwyn".

| | |
|---|---|
| 15. Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili | Caerffili |
| 16. Bwrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful | Merthyr Tudful |
| 17. Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd/Port Talbot | Castell-nedd a Phort Talbot |
| 18. Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd | Casnewydd |
| 19. Bwrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Tâf | Rhondda Cynon Tâf |
| 20. Bwrdd Iechyd Lleol Tor-faen | Tor-faen |
| 21. Bwrdd Iechyd Bro Morgannwg | Bro Morgannwg |
| 22. Bwrdd Iechyd Lleol Wrecsam | Wrecsam |

| | |
|---|---|
| 15. Caerphilly Local Health Board | Caerphilly |
| 16. Merthyr Tydfil Local Health Board | Merthyr Tydfil |
| 17. Neath Port Talbot Local Health Board | Neath and Port Talbot |
| 18. Newport Local Health Board | Newport |
| 19. Rhondda Cynon Taff Local Health Board | Rhondda Cynon Taff |
| 20. Torfaen Local Health Board | Torfaen |
| 21. Vale of Glamorgan Local Health Board | Vale of Glamorgan |
| 22. Wrexham Local Health Board | Wrexham |

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 148 (Cy.18)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 148 (W.18)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090666-7

9 780110 906669

**£2.00**

W3/03/03 ON